OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 1027 (Cy.89) (C.60)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2009

*Gwnaed - - - - 20 Ebrill 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 181 a 188(3) o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006(**1**), ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (Cychwyn Rhif 3) 2009.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006.

**Y diwrnod penodedig**

**3.** Mae darpariaethau canlynol Deddf 2006 yn dod i rym ar 1 Medi 2009:

(a) adran 4 (dyletswydd i enwi plant nad ydynt yn derbyn addysg);

(b) adran 164 (gwybodaeth am blant sy'n derbyn addysg a gyllidir y tu allan i ysgol);

(c) adran 184 (diddymu) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r ddarpariaeth a nodir ym mharagraff (ch);

(ch) yn Rhan 6 o Atodlen 18, diddymu yn Neddf Addysg 1996 yn adran 437(8) y diffiniad o "suitable education".

*Jane E. Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

20 Ebrill 2009

(**1**) 2006 p.40. Diwygiwyd adran 181 gan adran 23 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (2008 mccc 2).
(**2**) Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn adrannau 4 a 164 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 i rym ar 1 Medi 2009.

Mae adran 4 yn mewnosod adran 436A newydd yn Neddf Addysg 1996 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau addysg lleol wneud trefniadau i ddarganfod pwy yw'r plant yn eu hardal nad ydynt yn derbyn addysg addas.

Mae adran 164 yn mewnosod adran 537B newydd yn Neddf Addysg 1996. Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei rhoi am blant sy'n derbyn addysg y tu allan i ysgol ac a gyllidir gan awdurdod addysg lleol ac mae'n darparu ynghylch rhannu'r cyfryw wybodaeth.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau canlynol Deddf 2006 wedi'u dwyn i rym o ran Cymru drwy Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 1 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 37(1) a (2)(a) | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 38 | 1 Medi 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 39 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 40 | 1 Medi 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adrannau 43—45 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 47 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 53 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 55 | 9 Chwefror 2009 | 2009/49 (Cy.17) |
| Adran 156 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 166 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 175 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 184 yn rhannol | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Adran 184 yn rhannol | 1 Medi 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Atodlen 17 | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Atodlen 18 yn rhannol | 30 Mehefin 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |
| Atodlen 18 yn rhannol | 1 Medi 2008 | 2008/1429 (Cy.148) |

Mae amryw o ddarpariaethau Deddf 2006 wedi'u dwyn i rym mewn perthynas â Lloegr gan yr Offerynnau Statudol canlynol: O.S. 2006/2990, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/54, O.S. 2006/3400, O.S. 2007/935 (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2007/1271), O.S. 2007/1271, O.S. 2007/1801, O.S. 2007/3074 ac O.S. 2008/1971.

*Gweler* hefyd adran 188(1) a (2) ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar 8 Tachwedd 2006 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol) ac 8 Ionawr 2007 (deufis yn ddiweddarach).